**Canllawiau S4C i Bleidiau Gwleidyddol neu Sefydliadau Dynodedig ar gyfer Cynhyrchu Darllediadau Gwleidyddol, Etholiadol neu Ymgyrchoedd Refferendwm (PPB, PEB, RCBs)**

Mawrth 2026

## 1. Cyflwyniad

1.1 Cynlluniwyd y Canllawiau hyn i ddelio â materion cydymffurfiaeth a'r 'rheolau' sydd i'w dilyn gan bob plaid gymwys neu sefydliad dynodedig[1] wrth gynhyrchu PPBs, PEBs a/neu RCBs ar gyfer eu darlledu ar S4C. Tra bo pleidiau/sefydliadau dynodedig yn gyfrifol am gynnwys y darllediadau, mae gofyn iddyn nhw gadw at y canllawiau sy'n dilyn, a gytunwyd rhwng y darlledwyr ac sy'n berthnasol i bob plaid/sefydliad dynodedig yn yr un modd.

1.2 Mae'r Canllawiau hyn wedi eu cynllunio i gysoni safonau golygyddol S4C a disgwyliadau ei chynulleidfa gyda rhyddid y pleidiau/sefydliadau dynodedig i drosglwyddo eu negeseuon gwleidyddol, ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu bodloni ar bob achlysur.

## 2. Cydymffurfiaeth

2.1 Yn ogystal â'r Canllawiau hyn, rhaid i bob PPB, PEB a RCB gydymffurfio â'r canllawiau a pholisïau canlynol fel y'u hamrywir o dro i dro:

- canllawiau cynhyrchu'r *Broadcasters Liaison Group* ("BLG") sydd ar gael ar wefan y BLG ar: https://www.bbc.co.uk/broadcastersliaisongroup/guidelines/production-guidelines-party-broadcasts;
- canllawiau S4C ar 'Gyfleu Darllediadau Gwleidyddol, Etholiadol ac Ymgyrchoedd Refferendwm i S4C' sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C; a
- 'Polisi S4C ar Ddarllediadau Pleidiau Gwleidyddol (PPB), Darllediadau Etholiadol (PEB) a Darllediadau Refferendwm' sydd ar gael ar wefan Bwrdd Unedol S4C.

2.2 Rhaid i bob darllediad gadw at y gyfraith – er enghraifft, yn ymwneud â hawlfraint, enllib, difenwad, dirmyg, annog casineb hiliol neu drais ayyb. Ni ddylai unrhyw ddarllediad darfu ar unrhyw un o'r hawliau confensiwn, fel y'u diffinnir yn Neddf Hawliau Dynol 1998, unrhyw unigolyn na thresmasu ar unrhyw hawlfraint, nod masnachu, hawl preifatrwydd, hawl cyhoeddusrwydd nac unrhyw hawl arall o unrhyw fath sy'n perthyn i unrhyw berson, na thorri ar ddarpariaethau unrhyw statudau (gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a thriniaeth deg), rheoliadau neu orchmynion.

2.3 Rhaid i bob darllediad gydymffurfio â phob cod, canllaw, polisi a gofyniad perthnasol gan Ofcom fel y'u cyhoeddir, amrywir neu disodlir o bryd i'w gilydd gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom, ac yn ystod cyfnod etholiad neu refferendwm, Rheolau Ofcom ar Ddarllediadau Gwleidyddol a Refferendwm fel y'i amrywir neu newidir mewn perthynas ag unrhyw etholiad neu refferendwm benodol.

[1] Fel y'u dynodir gan y Comisiwn Etholiadol yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda 2000.

2.4 Ni ddylai darllediadau fod yn anghywir neu’n gamarweiniol.

2.5 Caiff didueddrwydd dyladwy ar ran S4C ei wireddu dros y gyfres o PPB/PEB/RCBs yn eu cyfanrwydd, ac felly nid oes dyletswydd i gyflawni ddiduedd dyladwy o fewn pob darllediad.

2.6 Bydd y blaid/sefydliad dynodedig sy’n gyfrifol am y darllediad yn indemnio S4C rhag pob colled neu achos cyfreithiol neu reoleiddiol sy’n deillio o gynnwys unrhyw ddarllediad neu unrhyw dorri ganddo ar unrhyw oblygiadau a gynhwysir yn y Canllawiau hyn.

## 3. Hawliau

3.1 Rhaid i bob PPB, PEB a RCB a gyflëir i S4C roi trwydded i S4C i ddarlledu’r PPB, PEB neu RCB ar bob gwasanaeth a ddarperir gan, ar ran neu gyda chaniatâd S4C ar unrhyw blatfform yn fyd-eang.

3.2 Cyfrifoldeb y blaid/sefydliad dynodedig ydyw i sicrhau bod pob caniatâd angenrheidiol ac unrhyw hawliau trydydd bartïon (er enghraifft ar gyfer cerddoriaeth neu ddeunydd archif) wedi eu sicrhau cyn darlledu. Gall S4C ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o’r cliriadau hawliau hyn cyn darlledu.

3.3 Ni ddylid cynnwys unigolyn adnabyddadwy mewn modd amlwg mewn darllediad mewn ffordd sy'n awgrymu cefnogaeth i'r blaid sy'n gwneud y darllediadau heb ganiatâd gwybodus y person hwnnw, a dylid cofnodi’r caniatâd hwnnw yn ysgrifenedig a’i wneud ar gael i S4C ar ei chais. Rhaid i bleidiau/sefydliadau dynodedig sicrhau bod unigolion sy'n ymddangos yn y darllediad yn cael eu hysbysu'n llawn ac yn cytuno i gymryd rhan. Yn ogystal, lle bo plentyn o dan 16 yn ymddangos yn y PPB/PEB/RCB, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan riant neu warchodwr y plentyn, a lle nad yw unigolyn yn gallu rhoi caniatâd, dylid cael caniatâd ysgrifenedig gan y person (dros 18 oed) sydd â'r prif gyfrifoldeb am ei ofal.

3.4 Dylai partïon/sefydliadau dynodedig gymryd gofal arbennig ynghylch clipiau o brotestiadau sy'n cynnwys pobl nad ydynt yn, neu yn debygol o beidio bod yn, gefnogwyr i'r blaid/sefydliad dynodedig dan sylw.

## 4. Deunydd & Lluniau Trydydd Partïon

4.1 Yn amodol ar amodau ar gyfer defnydd trwyddedig o luniau a/neu glipiau seneddol (a geir yn y drwydded a hefyd amodau lawrlwytho’r sefydliadau priodol), gall PPB/PEB/RCB gynnwys ddarn o recordiad o drafodion yn Senedd Cymru, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon neu Gynulliad Llundain os yw’n cynnwys araith neu *extract* gan aelod o’r blaid/sefydliad dynodedig sy’n gwneud y darllediad, a bod caniatâd yr aelod hwnnw wedi ei dderbyn.

4.2 Dylai pob darn neu *extract* sy’n cynnwys aelod o blaid heblaw am y blaid sy’n gwneud y darllediad gael caniatâd gan yr aelod a’r blaid arall dan sylw ill dau. Caniateir lluniau llydan o siambrau Senedd Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, ond ni chaniateir lluniau llydan o siambrau San Steffan yn ystod eisteddiadau.

4.3 Ni chaniateir defnydd o ddeunydd o drafodion yn Senedd San Steffan o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar ddarlledu deunydd o'r fath sy'n ofynnol gan yr Uned Recordio Seneddol.

4.4 Gall y blaid sydd wedi derbyn y slot darlledu ddefnyddio darnau o areithiau cynadleddau'r blaid honno a gellir trwyddedu'r rhain yn y modd arferol gan y darlledwyr.

4.5 Ni ddylid cynnwys clipiau archif neu newyddion o aelodau o unrhyw blaid wleidyddol arall heb ganiatâd yr unigolyn a'r blaid dan sylw. Mae hyn yn berthnasol i ddefnydd gweledol a chlywedol fel ei gilydd. Fel arfer, gellir defnyddio lluniau llonydd sydd heb eu hanffurfio (*undistorted stills*) sydd wedi'i gyhoeddi'n gyfreithlon o'r blaen heb ganiatâd yr unigolion neu eu plaid. Ni ddylid defnyddio lluniau llonydd sydd wedi'u ystumio (er enghraifft trwy osod testun, graffeg neu effeithiau gweledol uwchben y ffigwr gwleidyddol). Fel arfer, gellir defnyddio clipiau archif neu luniau llonydd sydd heb eu hanffurfio (*undistorted stills)* o ffigurau cyhoeddus rhyngwladol heb gydsyniad unigolion o'r fath, lle nad yw defnydd o'r fath yn awgrymu cefnogaeth y ffigwr hwnnw i'r blaid sy'n gwneud y darllediad.

4.6 Gellir prynu deunydd newyddion sy'n cynnwys arweinydd a gwleidyddion y blaid/sefydliad dynodedig ei hun gan y darlledwyr yn y modd arferol ond dylid osgoi clipiau sy'n amlygu'r rhaglen y'u cynhwysid ynddi (er enghraifft trwy logos ar-sgrin, cerddoriaeth thema neu lais neu wyneb cyflwynydd/gohebydd).

4.7 Os yw unrhyw ran o ddarllediad wedi'i chynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial (AI) neu os yw'n gynnwys synthetig/*deepfake*, rhaid i'r parti sy'n cyflwyno'r darllediad roi gwybod i S4C wrth ei gyflwyno. Ni ddylid defnyddio cynnwys synthetig neu gynnwys y'i chynhyrchir gan AI mewn ffordd sy'n camarwain gwylwyr yn sylweddol, neu sy'n arwain at driniaeth annheg neu dorri preifatrwydd person yn ddiangen. Os yw darllediad yn cynnwys cynnwys AI neu synthetig, dylid ei nodi i wneud ei ddefnydd yn amlwg. Yn amodol ar y blaenorol, dylai defnyddio *caricatures* neu gartwnau o wleidyddion fod yn dderbyniol mewn egwyddor.

## 5. Materion Cynnwys Eraill

5.1 Lle caiff ymgeiswyr eu cynnwys mewn darllediad etholiadol ni ddylid cynnwys unrhyw gyfeiriad amlwg llafar neu weledol penodol sy'n nodi'r etholaeth, y ward neu'r rhanbarth (mewn etholiadau perthnasol) y maent yn sefyll ynddo.

5.2 Mewn darllediad etholiadol, ni ddylai unrhyw ymgeisydd wneud pwynt neu gyfeiriad etholaeth, ward neu ranbarth. Mae hyn er mwyn osgoi rhoi mantais annheg i ymgeisydd, neu godi proffil yn ei etholaeth, ei ward neu ranbarth.

5.3 Dylid osgoi lluniau neu recordiadau sy'n cynnwys darlledwyr, er enghraifft cyfwelwyr neu ohebwyr, lle y gallai hyn godi amheuaeth am ddidueddrwydd S4C.

5.4 Lle defnyddir actorion mewn darllediad, rhaid gwneud hyn yn amlwg i'r gynulleidfa os oes unrhyw bosibilrwydd y gallai'r gynulleidfa gael ei drysu neu ei chamarwain gan eu hymddangosiad. Mae hyn yn berthnasol yn yr un modd i adluniadau (*reconstructions*).

5.5 Mae PPB/PEB/RCBs sy'n dynwared fformat rhaglenni sefydledig ar unrhyw sianel, a rhaglenni newyddion yn arbennig, yn peri risg o gamarwain y gynulleidfa ac felly dylid eu labelu'n glir trwy gydol y darllediad.

5.6 Ni ddylid defnyddio rhifau ffôn sy'n cynhyrchu incwm mewn darllediad. Dylai pleidiau sy'n bwriadu cynnwys rhifau ffôn neu destun yn eu darllediadau drafod gyda S4C o leiaf wythnos cyn y dyddiad darlledu er mwyn sicrhau bod cydymffurfiaeth briodol â'r rheolau llym sy'n berthnasol yn y maes hwn, gan gynnwys ffurf y geiriau i'w defnyddio mewn testun a llais. Ni fydd S4C yn darlledu oni bai y defnyddir geiriad sydd wedi ei gytuno gyda S4C. Yn amodol ar gytundeb o flaen llaw gyda S4C, caniateir apeliadau i aelodau'r gynulleidfa gysylltu â'r blaid/sefydliad dynodedig ar ddiwedd darllediad trwy alwad ffôn, neges destun, gwefannau, côd QR, e-bost ac ati. Ni ddylai'r manylion cyswllt fod ar y sgrin am fwy na 30 eiliad. Ni chaniateir apeliadau uniongyrchol am arian na dolenni at y fath apeliadau (er enghraifft "Cadwch eich cardiau credyd gerllaw").